Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Dderi
# Llangybi
# Llanbedr Pont Steffan
# Ceredigion
# SA48 8LY

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Y Dderi ym mhentref Llangybi ger Llanbedr Pont Steffan, Sir Ceredigion. Mae’n gwasanaethu ardal wledig eang sy’n cynnwys pentrefi Silian, Betws Bledrws, Cellan, Llanfair Clydogau, Llangybi a Llwynygroes.

Mae 128 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr yn cynnwys 11 o blant oed meithrin sy’n mynychu yn y boreau yn unig. Mae’r disgyblion wedi’u trefnu’n bum dosbarth gyda thri ohonynt yn ddosbarthiadau o oed cymysg. Caiff disgyblion eu derbyn i’r dosbarth meithrin yn rhan amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae’r ysgol wedi adnabod oddeutu 30% o’r disgyblion fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys nifer fach o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan tua 21% o’r disgyblion hawl i dderbyn cinio am ddim, sydd o gwmpas y ffigwr cenedlaethol.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a’r dysgu, ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Saesneg yw’r brif iaith yn y cartref i tua 72% o’r disgyblion. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008.

Apwyntiwyd y pennaeth i’w swydd ym Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Dderi yn 2013-2014 yw £4,027. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ceredigion yw £9,062 a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Y Dderi yn safle 28ain o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn;
- safonau cyflawniad rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau gwaith yn dda;
- canlyniadau disgyblion mwy abl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cymharu'n ffafriol iawn â pherfformiad ysgolion tebyg;
- y disgyblion yn derbyn profiadau dysgu o ansawdd rhagorol o fewn a thu allan i'r ysgol;
- ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn dda;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn mwynhau eu dysgu; a bod
- yr ethos cynhwysol o ansawdd rhagorol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les a datblygiad y disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn gyda ffocws pendant ar godi safonau a gwelliant parhaus;
- bod yr holl staff yn rhannu'r un gwerthoedd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- bod prosesau hunanarfarnu trwyadl sy'n cynorthwyo'r staff i adnabod yn gywir ei chryfderau a'r agweddau i'w datblygu;
- bod cyswllt amlwg rhwng y broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol;
- bod tystiolaeth o gynllunio a gweithredu gwelliannau'n llwyddiannus; a bod
- cydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaid er lles ac addysg y disgyblion.

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau llafar a darllen Cymraeg y disgyblion

A2 Lleihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella lefelau presenoldeb

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol lleiafrif y disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol islaw'r disgwyliedig. Mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion yn dangos bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da ac weithiau da iawn o'u man cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda. Gallant alw i gof dysgu blaenorol, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol yn eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brwaddegau yn gywir mewn sefyllfaoedd gwahanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn cyfathrebu'n rhydd yn y Gymraeg ac yn dangos gafael briodol ar eirfa bynciol a chyffredinol wrth drafod eu gwaith. Nid yw gallu ychydig o'r disgyblion i drafod ac ymateb yn llawn wedi datblygu cystal. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn Saesneg. Maent yn trafod a rhannu syniadau'n effeithiol mewn amryw o gyd-destunau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau addas wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion yn medru trafod yn syml eu hoff gymeriadau a digwyddiadau yn eu llyfrau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir ac ystyrlon yn Saesneg. Nid yw ychydig o'r disgyblion yn darllen gyda digon o rugl der a mynegiant yn y Gymraeg. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o gymeriadau a rhediad stori ond nid oes ganddynt yr hyder bob amser i drafod a mynegi barn. Gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac oddi ar wefannau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol gyda chywirdeb cynyddol. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig, yn greadigol ac wrth gofnodi eu profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos gafael sicr ar fedrau atalnodi. Mae gafael lleiafrif o'r disgyblion ar fedrau sillafu Cymraeg yn fwy anwastad. Gwna'r disgyblion ddefnydd priodol o fedrau ailddrafftio i wella ar eu hymdrechion cyntaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol ac yn aml yn estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, yn arbennig drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r disgyblion mwy galluog yn amrywio arddull yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

Ar draws yr ysgol, gwna’r disgyblion ddefnydd eang ac effeithiol o’u medrau meddwl, ymchwilio, TGCh a chreadigol ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio’r wybodaeth hon yn hyderus i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar ystod briodol o fedrau rhifedd. Maent yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp, a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf graffiau gwahanol mewn pynciau megis gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth. Gwna’r disgyblion ddefnydd effeithiol iawn o’u medrau i ddatrys problemau mewn cyd-destun bywyd bob dydd. Mae eu gweithgareddau menter yn enghraifft dda o hyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros gyfnod o ddwy flynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a’r deilliant uwch (deilliant 6) yn anwastad. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, roedd canlyniadau’r disgyblion ar y deilliant disgwyliedig yn 2013 yn gosod yr ysgol yn y 50% is mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, ac yn y 25% isaf mewn datblygiad mathemategol. Roedd perfformiad y disgyblion ar y deilliant uwch yn y 25% uchaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) a’r lefel uwch (lefel 5) yn dangos cynnydd da dros y tair blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, roedd y canlyniadau yn 2013 mewn Saesneg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig a’r lefel uwch yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf. Roedd y canlyniadau mewn mathemateg yn y 50% uwch. Roedd canlyniadau’r disgyblion mewn Cymraeg ar y lefel ddisgwyliedig yn y 50% is, ac yn y 50% uwch o ran y lefel uwch.

Nid oes gwahaniaeth cyson rhwng perfformiad merched o gymharu â’r bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad merched yn well na’r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, ac yn gyson yn y Gymraeg. Mae perfformiad merched yn well na’r bechgyn ar y lefelau uwch yn y rhan fwyaf o’r pynciau. Mae disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim yn gwneud cynnydd cadarn.

## Lles: Digonol

Mae gan y disgyblion wybodaeth dda, ac agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta’n iach. Maent yn deall pwysigrwydd bod yn egnïol yn gorfforol ac yn credu bod yr ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ganiatáu iddynt wneud hynny.

Mae'r holl ddisgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn gwrtais ac ystyriol, ac yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau, gan ddangos parch at safbwyntiau pobl eraill wrth iddynt rannu syniadau. Dangosant falchder yn eu gwaith ac yn eu hysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ystod o fedrau sy'n eu cynorthwyo i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn wynebu tasgau newydd yn hyderus ac yn cyfranogi'n llawn yn eu dysgu.

Mae medrau personol, cymdeithasol a bywyd disgyblion yn datblygu'n dda iawn drwy'r ddarpariaeth ddyddiol, y cysylltiadau gyda busnesau ac unigolion o'r gymuned, a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyngherddau, gwasanaethau a digwyddiadau cymunedol.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg. Trwy weithgareddau'r cyngor ysgol, pwyllgor eco iach, y llysgenhadon, a'r defnydd o holiaduron, caiff disgyblion o bob oed ddylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cyfrannu eu syniadau at y cynllun gwella ysgol ac yn cymryd rôl flaenllaw wrth drefnu digwyddiadau elusennol o fewn yr ysgol.

O'u cymharu â ffigyrau ysgolion tebyg, mae lefelau presenoldeb disgyblion yn y 25% isaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm a rhaglen addysgu ysgogol sy'n cynnwys ystod o brofiadau cyfoethog. Mae'r ddarpariaeth yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol ac i anghenion holl ddisgyblion yr ysgol. Mae profiadau dysgu yn cael eu cyfoethogi'n rhagorol gan ymweliadau a gynlluniwyd yn gyson oddi ar y safle a thrwy groesawu nifer helaeth o ymwelwyr i'r ysgol. Mae hyn yn datblygu medrau dysgu, personol, cymdeithasol a chymunedol disgyblion yn effeithiol iawn.

Un enghraifft o hyn yw'r astudiaeth o'r Ail Ryfel Byd lle defnyddiwyd ymweliad â safle hen wersyll carcharorion rhyfel, mewnbwn hanesydd lleol, a chyfraniadau teulu Iddewig ac ymwelwyr o'r Eidal yn ddyfeisgar i gynnig persbectif ehangach o'r gwrthdaro i'r disgyblion. Dan arweiniad Bardd Plant Cymru, defnyddiwyd barddoniaeth yn effeithiol iawn fel cyfrwng i grynhoi barn ac ymateb y disgyblion i'r profiadau hyn.

Mae cynllunio trylwyr yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn sicrhau parhad a dilyniant yn natblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion. Mae nodweddion rhagorol i'r defnydd dychmygus o themâu. Mae'r cynllunio bwriadus yn hyrwyddo medrau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae lle amlwg i farn disgyblion a chyfleoedd da iddynt gyfrannu at gynllunio'r profiadau dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau menter yn hynod effeithiol. Caiff y disgyblion gyfleoedd pwrpasol i ymchwilio, cynllunio, trin cyllid a marchnata eu

cynnyrch.  Mae'r gwaith yn cynnig cyfleoedd ymarferol i'r disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Mae profiadau gwerthfawr, yn cynnwys gwaith y cyngor eco, yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn llwyddiannus.  Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd-eang yn gryfder.  Mae hyn yn cynnwys astudiaethau o wledydd eraill fel rhan o'r cwricwlwm, ymweliadau tramor i'r staff a disgyblion, a diwrnodau cenedlaethol sy'n dathlu diwylliannau pobl eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn effeithiol ac yn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd cyson o oed cynnar.  Mae elfennau rhagorol i'r ddarpariaeth ar gyfer hybu'r dimensiwn Cymreig.  Caiff agweddau ar hanes, daearyddiaeth, diwylliant a cherddoriaeth Cymru eu cyflwyno yn hynod effeithiol drwy brofiadau symbylus tu fewn a thu allan i'r dosbarth.  Mae'r profiadau yn cael eu cyfoethogi ymhellach drwy'r ymweliadau niferus a chyfraniad ymwelwyr megis beirdd a chwmnïau drama i'r gweithgareddau dysgu.

**Addysgu:  Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol.  Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel a nodau pendant ar gyfer pob gwers.  Mae paratoi trwyadl, tasgau diddorol a defnydd dychmygus o adnoddau yn sicrhau ymrwymiad gweithredol y disgyblion yn eu dysgu.  Mae sgwrsio gyda disgyblion a chraffu ar eu gwaith yn dangos cynnydd cadarn yn eu defnydd o'u medrau ar draws y pynciau.  Er enghraifft, ym mhen uchaf yr ysgol caiff medrau meddwl, llythrennedd a rhifedd eu plethu'n gelfydd drwy'r gweithgareddau mewn gwersi gwyddoniaeth.

Caiff gweithgareddau eu cynllunio a'u trefnu'n effeithiol i gwrdd ag anghenion dysgu disgyblion o bob gallu.  Mae'r bartneriaeth waith agos rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion, yr ethos hapus, a'r ymdeimlad o barch rhwng oedolion a disgyblion yn cyfrannu'n sylweddol at effeithiolrwydd y drefniadaeth hon.

Mae trefniadau asesu a chofnodi cynhwysfawr yn galluogi athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn rheolaidd.  Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth a geir i gynllunio gweithgareddau dysgu ac i ddarparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw.

Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad clir ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith.  Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion arfarnu gwaith eu hunain ynghyd â gwaith eu cyfoedion.  Mae hyn yn cyfrannu'n adeiladol at eu cynnydd a'u cyflawniad.

Mae'r adroddiadau i rieni a gofalwyr yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr iddynt am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar lle caiff pawb eu gwerthfawrogi.  Mae trefniadau effeithiol iawn i gefnogi lles emosiynol a chorfforol disgyblion sy'n sicrhau eu hymrwymiad llawn yn eu haddysg.  Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer

hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer o gyfleoedd o ansawdd da i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol.

Mae profiadau dysgu gwerthfawr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, sesiynau addoli ar y cyd, a'r rhaglenni amser cylch yn cynnig profiadau buddiol sydd yn cyfrannu at hyn.

Mae defnydd effeithiol o asiantaethau allanol, megis gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, a swyddogion lles addysg, sy'n sicrhau cymorth cadarn i ddisgyblion, staff a rhieni fel ei gilydd. Mae ymdrechion yr ysgol i wella presenoldeb yn cael effaith gadarnhaol ar y canrannau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff pob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae rhaglenni cynhwysfawr yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau darpariaeth addas ar gyfer y disgyblion. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon a'r cydlynydd, a darperir cynlluniau addysgu unigol o ansawdd da ar eu cyfer. Caiff rhieni rôl gyflawn a gweithredol yn y prosesau. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion pob disgybl sy'n derbyn darpariaeth benodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned agos, groesawus a llawn gofal. Mae hyn yn creu ethos cynhwysol gadarn sy'n rhoi hyder i'r holl ddisgyblion i gyfranogi'n llawn o'r profiadau dysgu a ddarperir. Mae hon yn nodwedd arbennig sy'n cyfrannu'n arwyddocaol at y cynnydd cadarn a wna rhan fwyaf y disgyblion o'u man cychwyn.

Mae cynllunio bwriadus a threfniadaeth effeithiol yn sicrhau cyfle cyfartal o ansawdd uchel i'r holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth arbennig i gefndiroedd disgyblion ac yn sicrhau eu bod i gyd yn cymryd rhan yn llawn yn y rhaglen ddysgu ac yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae hon yn nodwedd ragorol. Mae'r cyfle i bob disgybl fanteisio ar ymweliadau, teithiau i'r cyfandir, a'r ystod eang o ddigwyddiadau a ddarperir yn enghraifft weithredol o weledigaeth yr ysgol.

Rhoddir parch mawr i amrywiaeth mewn cymdeithas, yn lleol ac yn y byd ehangach, ac mae hyn yn rhan annatod o'r cwricwlwm a'r dysgu ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion ac i ddyheadau eu rhieni. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch at bawb.

Mae adeilad a safle'r ysgol yn symbylus, lliwgar a deniadol. Mae'r ystod eang o ardaloedd dysgu amrywiol tu fewn i'r adeilad yn cynnwys llyfrgell, swît gyfrifiadurol, ardaloedd gwaith creadigol a neuadd aml-bwrpas. Mae cyflenwad eang o adnoddau o ansawdd da. Mae arddangosfeydd pwrpasol o waith y disgyblion yn dathlu eu cyflawniad ac yn cefnogi'r dysgu.

Mae ardal y goedlan, yr ardd amgylcheddol, y gerddi llysiau, y cae chwarae pren, ac ardal ‘pentre’ bach bach’ y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu allanol o ansawdd uchel.

Mae’r toiledau’n lân ac addas, a chaiff yr holl safle a’r adeilad eu cynnal a’u cadw i safon dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac ymroddiad cryf i godi safonau a chynnig profiadau ysgogol i bob disgybl. Mae ansawdd yr arweiniad a gynigir wrth ledaenu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda’r holl staff, y disgyblion, y rhieni a’r llywodraethwyr yn nodwedd ragorol. Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad clir a chadarn i’r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar brofiadau dysgu dychmygus sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad.

Mae rolau staff a’u cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir sy’n hyrwyddo gwaith tîm effeithiol. Mae’r uwch dîm rheoli’n dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gydgynllunio manwl.

Mae’r corff llywodraethol yn ymroddedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn ymgymryd a’i ddyletswyddau yn gydwybodol. Mae’r aelodau yn meddu ar wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol ac o’r meysydd i’w datblygu. Mae eu hymweliadau cyson â’r ysgol yn gymorth i roi cefnogaeth a chyfeiriad strategol, ac yn eu galluogi i gyfrannu’n fwy effeithiol at y broses hunanarfarnu.

Mae’r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r defnydd o’r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio’r medrau ar draws y cwricwlwm yn enghraifft o hyn. Mae’r ysgol yn mynd i’r afael ag amddifadedd yn llwyddiannus iawn sy’n hyrwyddo cynnydd cadarn yn natblygiad y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol systemau hunanarfarnu priodol sydd wedi’u hymsefydlu’n gadarn. Mae’r broses hunanarfarnu yn drylwyr ac wedi’i seilio ar dystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion, adolygu gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth a dadansoddi data yn fanwl. Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion, rhieni a rhandeiliaid eraill yn effeithiol ac yn gweithredu ar y casgliadau sydd o fudd i addysg a lles disgyblion. Mae’r staff addysgu, yn ogystal â’r llywodraethwyr, yn cyfrannu’n llawn at y broses arfarnu.

Mae deilliannau’r gweithdrefnau arfarnu yn cael eu dadansoddi ac yn cael eu defnyddio’n fwriadus i arwain prosesau cynllunio strategol yr ysgol. O ganlyniad, mae’r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun realistig o gryfderau’r ysgol yn ogystal â meysydd i’w gwella.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n agos â'r adroddiad hunanarfarnu gyda'r blaenoriaethau'n canolbwyntio'n glir ar wella safonau dysgu a lles disgyblion. Mae cynlluniau yn nodi targedau mesuradwy gydag amserlen, cyfrifoldebau staff a chostau addas. Mae ffocws clir ar flaenoriaethau cenedlaethol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn profiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig eang a thrwy sefydlu ethos agored a chroesawgar llwyddwyd i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda holl aelodau cymuned yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad cryf y rhieni i nodau a gwerthoedd yr ysgol. Mae'r cyllid sylweddol sy'n cael ei gyfrannu gan y gymdeithas rhieni ac athrawon yn darparu adnoddau ychwanegol ac yn cefnogi gwariant ar ymweliadau.

Mae'r ysgol yn ganolfan i'r gymuned gyfan ac yn darparu cyfleusterau ac adnoddau sy'n hybu cysylltiadau cadarn gydag asiantaethau, cymdeithasau a busnesau er budd addysg y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gymorth unigolion o'r gymuned i gyfrannu o'u profiad a chefnogi gweithgareddau'r disgyblion. Mae'r cydweithio agos gyda siopau lleol i werthu cynnyrch gardd yr ysgol yn hwyluso datblygiad medrau busnes y disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo cysylltiadau gydag Ewrop yn gryfder. Mae hyn yn cynnwys teithiau i ddisgyblion, a lleoliad i athrawon o wledydd fel yr Eidal a Norwy. Mae'r defnydd o'r cysylltiadau hyn yn ehangu gorwelion y disgyblion a datblygu eu dealltwriaeth o wahaniaethau mewn diwylliannau ac arferion yn llwyddiannus.

Mae cysylltiadau cryf wedi cael eu meithrin gyda grŵp cyn-ysgol i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n effeithiol i'r dosbarth meithrin. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da. Mae'r cydweithio agos gydag ysgolion uwchradd yn hwyluso'r broses o bontio a throsglwyddo.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol gan yr ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn rhannu o'u harbenigedd a'u profiad i ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau. Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli'n dda. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth gadarn sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref. Mae staff yn gwneud defnydd llawn o'r cyfleoedd i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion eraill o fewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae'r cydweithio llwyddiannus i ddatblygu gweithgareddau i godi safonau llythrennedd a rhifedd yn drawsgwricwlaidd yn sgil gofynion y fframwaith cenedlaethol newydd yn enghraifft dda o hyn.

Mae trefniadau manwl ar gyfer rheoli perfformiad ac maent yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol yr holl staff. Caiff hyfforddiant ei gynllunio'n ofalus mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu ac mae'r athrawon yn paratoi llawer iawn o adnoddau eu hunain. Mae'r rhain o safon dda ac yn cael eu defnyddio'n gelfydd i hybu ac ysgogi'r dysgu. Gwna'r staff ddefnydd llawn o gyfleusterau'r ysgol i hyrwyddo'r dysgu. Mae elfennau rhagorol i'r defnydd o'r ardaloedd tu allan i ddatblygu a hogi medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidol trylwyr ac mae gwariant wedi'i gysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd da o grantiau, ac yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Caiff staff ac adnoddau ariannol eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer codi safonau ac ehangu profiadau.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ac ansawdd y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn asesiadau 2013, roedd cyfraneddau'r disgyblion a gyflawnodd Dangosydd y Cyfnod Sylfaen, a'r dangosydd disgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau iaith llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol ar wahân, yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg. O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, roedd canlyniadau'r disgyblion yn y 50% is ar gyfer Dangosydd y Cyfnod Sylfaen, a'r deilliannau disgwyliedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Roedd y canlyniadau yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol, a datblygiad personol a chymdeithasol.

O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd y canlyniadau ar y deilliant uwch (deilliant 6) yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ym mhob maes a aseswyd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canlyniadau'r disgyblion o ran y dangosydd pwnc craidd a'r canran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn y pynciau craidd ar wahân yn dangos cynnydd da dros y tair blynedd ddiwethaf. Roedd y canlyniadau yn 2013 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o'r pynciau. Roedd y canlyniadau mewn Cymraeg yn is na chyfartaleddau'r teulu.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim, roedd y canlyniadau yn 2013 mewn Saesneg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf. Roedd y canlyniadau mewn mathemateg yn y 50% uwch, ac yn y 50% is mewn Cymraeg.

Roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) yn 2013 yn well na chyfartaleddau'r teulu ym mhob pwnc. O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd y canlyniadau yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn Saesneg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% uwch mewn Cymraeg a mathemateg.

Nid oes gwahaniaeth cyson rhwng perfformiad merched o gymharu â'r bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad merched yn well na'r bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, ac yn gyson yn y Gymraeg. Mae perfformiad merched yn well ar y lefelau uwch yn y rhan fwyaf o'r pynciau. Mae disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn gwneud cynnydd cadarn sy'n gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 60 | 60<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 60 | 59<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 60 | 60<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 60 | 60<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 60 | 60<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 57 | 57<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 60 | 60<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 60 | 60<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 60 | 59<br>98%<br>91% | 1<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 60 | 60<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 58 | 55<br>95%<br>77% | 3<br>5%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 60 | 59<br>98%<br>84% | 1<br>2%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 33 | 27 | 5 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 33 | 28 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 32 | 28 | 3 | 0 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 88% | 9% | 0% | 3% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 32 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 33 | 22 | 9 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 67% | 27% | 3% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 32 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 29 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 33 | 23 | 9 | 0 | 1 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 70% | 27% | 0% | 3% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 32 | 28 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 88% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 33 | 25 | 8 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 24 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 31 | 21 | 7 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 68% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 33 | 24 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 33 | 24 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 21 | 10 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 32 | 24 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 32 | 19 | 6 | 0 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 59% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 32 | 28 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 33 | 28 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| David Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Heini Thomas | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.